**Cymorth lles mewn ysgolion uwchradd a cholegau Addysg Bellach (AB) i blant a phobl ifanc sydd â phrofiadau o ofal**

(Sarah MacDonald, Gillian Hewitt, Rhiannon Evans, Alyson Rees, Rachel Brown, Rebecca Anthony & Siôn Jones)

**Negeseuon allweddol**

- Mae **anghenion iechyd meddwl a lles** dysgwyr a myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal yn gymhleth, ac yn amrywio yn ôl math o leoliad. Yn benodol, nid oedd anghenion plant a phobl ifanc fabwysiedig yn cael eu hystyried yn eang.
- Roedd y **ddarpariaeth mewn ysgolion** yn canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'i theilwra i anghenion. Roedd yr holl randdeiliaid yn ffafrio dulliau gweithredu sy'n cynnwys dysgwyr a rhieni a gofalwyr, sy'n blaenoriaethu adeiladu perthynas (gyda staff a chyfoedion), ac sy'n annog ymdeimlad o berthyn.
- Roedd **cyfnodau pontio** yn gyfnodau allweddol lle roedd angen cymorth ar bobl ifanc â phrofiad o ofal ac mae cyfleoedd clir i wella'r cymorth wrth iddyn nhw bontio i'r coleg, er mwyn sicrhau eu bod yn elwa o barhau mewn addysg y tu hwnt i 16 oed.
- Mae **gwaith partneriaeth rhwng addysg, iechyd a gofal cymdeithasol** yn hanfodol i wella darpariaeth iechyd meddwl a lles ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a dylai gael ei lywio gan leisiau plant a phobl ifanc, a rhieni a gofalwyr.

**Beth rydyn ni'n ei wybod yn barod...**

Prin yw'r dystiolaeth o ddulliau effeithiol o gefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn lleoliadau addysgol. Cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth ynghylch sut y gallai'r system addysgol weithio gyda systemau iechyd a gofal cymdeithasol i weithredu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn enwedig ar bwyntiau pontio addysgol allweddol, fel y newid i addysg ôl-16. Troswyd y bylchau hyn i'r Astudiaeth WiSC — Lles mewn Ysgolion a Cholegau.

**Beth wnaethom ni...**

Nod yr astudiaeth oedd deall darpariaeth iechyd meddwl a lles mewn ysgolion uwchradd a Cholegau AB, yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal (gan gynnwys y rhai sy'n derbyn - neu a arferai dderbyn - gofal maeth, gofal gan berthnasau neu ofal preswyl, sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, neu sydd wedi'u mabwysiadu). Roedd y cwestiynau ymchwil yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth: anghenion iechyd meddwl a lles; darpariaeth mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys profiadau o ddarpariaeth a ffactorau rhwystro a hwyluso; a sut roedd ysgolion a cholegau yn gweithio gydag ymarferwyr ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl.

Roedd dyluniad yr astudiaeth dull cymysg yn cynnwys:

- Ail-ddadansoddi data gan 28,838 o fyfyrwyr rhwng 11 a 16 oed a gymerodd ran yn arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr (SHW) 2017/18 yng Nghymru, a hefyd ddata o'r Holiadur Amgylchedd Ysgolion, a gwblhawyd gan 161 o ysgolion.
- Ymgynghoriadau â phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr mabwysiadol, ymarferwyr, a rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol.
- Cynhaliwyd astudiaethau achos mewn pedwar awdurdod lleol amrywiol gan gynnwys ysgolion uwchradd, colegau AB, timau gofal cymdeithasol, a thimau iechyd meddwl.
- Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gyda myfyrwyr ysgol a choleg (n=10), gofalwyr (n=2), ac ymarferwyr addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl (n=37).

**Ein canfyddiadau...**

**Anghenion iechyd meddwl a lles:** Dangosodd yr arolwg SHW fod gan blant a phobl ifanc mewn gofal iechyd meddwl a lles sylweddol waeth o gymharu â'u cyfoedion, gyda'r rhai mewn gofal preswyl yn mynegi'r iechyd meddwl a lles gwaethaf. Gwelwyd anterth anghenion wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, yn y cyfnod cyn arholiadau, yn ystod gwyliau ysgol, a hefyd pan roedd newidiadau sylweddol ym mywyd dysgwr. Disgrifiwyd hefyd yr angen i deimlo ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol:

> *"Mae teimlo eich bod chi'n perthyn yn bwerus iawn ar gyfer iechyd meddwl a lles. Ac rwy'n credu bod y grŵp hwnnw o blant mewn perygl o beidio â phrofi'r ymdeimlad hwnnw o berthyn."*
> *(Pennaeth)*

Mae mynd i'r coleg hefyd yn dwysáu anghenion ac yn aml yn cyd-fynd â symud i fyw'n annibynnol. Roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig o anghenion plant a phobl ifanc fabwysiedig ar draws yr astudiaethau achos.

**Darpariaeth uwchradd:** Dangosodd dadansoddiad data uwchradd y gallai perthnasoedd yn yr ysgol fod yn arbennig o anodd i'r grŵp gofal preswyl. Prin oedd yr enghreifftiau o ddarpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr â phrofiad o ofal. Yn hytrach, roedd ysgolion yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i deilwra i anghenion y dysgwr:

> *"Mae cymaint yn mynd 'mlaen [yn yr ysgol]. Ddim ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn bennaf, ond mae'n cael ei annog. [...] bydden ni'n dweud wrth blentyn sy'n derbyn gofal sy'n ymgyflwyno'n iawn [...] "Rwy'n credu y byddai'n syniad da i ti ymuno â'r clwb 'ma." Rydyn ni ychydig yn fwy uniongyrchol gyda nhw."* (Swyddog Cymorth Plant sy'n Derbyn Gofal)

**Darpariaeth bontio a choleg:** Roedd gan bron i hanner yr ysgolion a arolygwyd brotocolau i helpu gyda'r cyfnod pontio i'r coleg, ac mewn rhai achosion roedd cysylltiadau helaeth rhwng ysgolion a cholegau i gefnogi myfyrwyr yn ystod y cyfnod pontio, gan gynnwys trosglwyddo manylion am fecanweithiau cymorth a weithiodd yn dda i ddysgwyr yn yr ysgol:

> *"Byddwn ni'n dweud, iawn, dyna rywbeth maen nhw wir wedi elwa ohono. Hebddo, mae'n debyg y byddai eu presenoldeb yn gostwng, heb y cyswllt dyddiol 'na gan rai oedolion."* (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)

Roedd dulliau personoledig yn cefnogi unigolion sy'n symud i fyw'n annibynnol, ond roedd rhai colegau'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad yn hytrach na lles.

**Ffactorau rhwystro a hwyluso:** Mewn ysgolion, un rhwystr allweddol oedd diffyg dealltwriaeth ymysg staff o'r profiad o ofal, tra bod perthnasoedd gyda chyfoedion a staff yn ffactor hwyluso allweddol. Awgrymodd y canfyddiadau hefyd y gallai dysgwyr â phrofiad o ofal fod yn grŵp heriol i'w helpu weithiau, a'r cyfan maen nhw ei eisiau yw bod yr un peth â'u cyfoedion:

> *"Dyw'r rhan fwyaf o'n plant sydd mewn gofal ddim eisiau cael eu trin yn wahanol. Maen nhw eisiau bod yr un peth â'u ffrindiau."* (Pennaeth Blwyddyn)

Wrth bontio i'r coleg, roedd diffyg rhannu gwybodaeth yn rhwystr allweddol a oedd yn amharu ar y gallu i gynnig cymorth gwell. Fodd bynnag, roedd mynediad at ystod o staff ar y safle yn ffactor hwyluso pwysig.

**Profiadau rhanddeiliaid:** Roedd profiadau rhieni a gofalwyr o ddarpariaeth ysgol yn amrywiol ac yn dibynnu ar ddealltwriaeth ysgolion o'r profiad o ofal. Siaradodd dysgwyr am eu perthnasoedd â staff a gwerth cael rhywun i siarad â nhw:

> *"Gallwch chi gerdded mewn i unrhyw ystafell ddosbarth bron a mynd i siarad ag athro, lleisio'ch pryderon, maen nhw yna, byddan nhw'n gwrando arnoch chi."* (Dysgwr)

Soniodd staff ysgol am effaith cefnogi dysgwyr ar eu lles eu hunain — o ran graddfa a dyfnder materion. Profodd myfyrwyr ddealltwriaeth gyfyngedig o anghenion, ond hefyd brofiadau mwy cadarnhaol, lle cawsant eu cefnogi gan unigolyn cyson yn ystod cyfnod pontio.

**Gweithio gyda thimau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl**: Roedd gwaith amlasiantaethol yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer cymorth effeithiol, cyfannol, a chefnogwyd hyn gan 'rolau sbaner' fel y Pennaeth Ysgol Rithwir.

> *"Mae'r gefnogaeth maen nhw [Ysgolion Rhithwir] yn ei rhoi i ni fel ysgol a'r ffaith 'mod i'n gwybod lle galla i gael y gefnogaeth 'na os nad ydw i'n gwybod yr ateb i gwestiynau wedi bod yn gwbl anhygoel."* (Arweinydd Diogelu Ysgol)

Disgrifiwyd hefyd y gwerth o wasanaethau'n cyflogi pobl o wahanol gefndiroedd ymarfer i wella dealltwriaeth ymarferwyr.

## Argymhellion yr astudiaeth

**Ar gyfer pob sefydliad** sy'n ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal:

- Dylai lleisiau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'u rhieni a'u gofalwyr fod yn rhan annatod o newidiadau a datblygiadau yn y dyfodol.
- Dylid cydlynu cymorth iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ar lefel genedlaethol.
- Dylai cryfhau cydweithrediadau rhwng addysg, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol gynnwys buddsoddi mewn 'rolau sbaner' ac archwilio arloesiadau cysylltiedig eraill.

Roedd **cyfnodau pontio** yn aml yn cael eu crybwyll fel cyfnod o angen cynyddol. Mae’r argymhellion yn cynnwys:

- Gwella pontio i'r coleg drwy bwynt cymorth sengl.
- Cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i bontio o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl oedolion.

Ar gyfer **ysgolion** a **cholegau**:

- Adeiladu ymdeimlad o berthyn i ddysgwyr sydd â phrofiad o ofal drwy gefnogi perthnasoedd hirdymor gyda staff, a thrwy feithrin a chynnal cyfeillgarwch.
- Cynnig neu barhau i gynnig cymorth hyblyg ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu berson ifanc i ddysgwyr sydd â phrofiad o ofal.
- Ysgolion, colegau ac eraill i archwilio ffyrdd o ddod ag anghenion plant a phobl ifanc fabwysiedig i flaen y meddwl.
- Ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gefnogi iechyd meddwl a lles staff, yn benodol mewn perthynas â'u gwaith yn cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o ofal.
- Codi ymwybyddiaeth o anghenion myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal a gwella gohebiaeth fewnol y coleg i ddatblygu systemau sy'n cydbwyso preifatrwydd a rhannu gwybodaeth.
- Adolygu rolau bugeiliol a chyllid i fynd i'r afael â chynaliadwyedd.
- Darparu adnoddau lles dwyieithog sydd ar gael yn hawdd.

## Y camau nesaf

Bydd adroddiadau, erthyglau cyfnodolion a newyddion arall sy'n gysylltiedig â’r astudiaeth ar gael yn: https://decipher.uk.net/

Gallwch hefyd gysylltu â ni am ddiweddariadau: wisc@caerdydd.ac.uk

## Diolch yn fawr

Rydym yn hynod ddiolchgar i holl gyfranogwyr yr astudiaeth, a’n sefydliadau partner. Mae Canolfan Ymchwil DECIPHer ac Astudiaeth WiSC yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.